



## **Adroddiad Gweithdy 1**

**Thema'r gweithdy: Adfywio iaith, mudoledd a thrawsnewid cymunedol**

**Paratowyd gan Dr Huw Lewis, Dr Elin Royles a'r Athro Wilson McLeod**

**Awst 2017**



Gwefan: [revitalise.aber.ac.uk](http://revitalise.aber.ac.uk)



THE UNIVERSITY  
of EDINBURGH

E-bost: [revitalise@aber.ac.uk](mailto:revitalise@aber.ac.uk)



Arts & Humanities  
Research Council

Twitter: [@\\_revitalise](https://twitter.com/_revitalise)



## Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
1. Cyflwyniad	4
2. Dealltwriaethau tiriogaethol a rhwydweithiol o gymuned a gofod	5
3. Defnydd o iaith a rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein	7
4. Mudo, amlddiwylliannedd ac adfywio iaith	8
5. Agweddau ar adfywio iaith leiafrifol	11
6. Materion methodolegol	13
7. Trafodaeth glo	14
Atodiad: Rhaglen y gweithdy	15



## Crynodeb gweithredol

- Mae'r papur hwn yn adrodd ar y trafodaethau a gafwyd fel rhan o weithdy cyntaf y prosiect **Adfywio** a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth rhwng 22 a 23 Mai 2017. Teitl y gweithdy oedd '**Adfywio iaith, mudoedd a thrawsnewid cymunedol**', a'i nod oedd rhoi'r cyfle i feddwl yn feirniadol am newidiadau diweddar i syniadau ynglyn â chymuned a'u goblygiadau i'n dealltwriaeth o sut i adfywio iaith. Mae'r prif gasgliadau a ddeilliodd o'r gweithdy wedi'u rhestru isod.
- **Dealltwriaethau tiriogaethol a rhwydweithiol o gymuned a gofod (tt.5-7).** Mae dealltwriaethau traddodiadol, tiriogaethol o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyfywedd iaith yn parhau i feddu ar berthnasedd. Ar yr un pryd, mae angen ystyried sut mae mwy o fudoedd personol ynghyd â newid mewn patrymau o ymwneud cymdeithasol yn effeithio ar arferion iaith pobl. O ganlyniad, mae angen datblygu trafodaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyfywedd iaith sy'n cyfuno naratifau tiriogaethol traddodiadol ag ystyriaeth o ddealltwriaeth mwy rhwydweithiol o ofod a chymdeithas.
- **Defnydd iaith a rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein (tt.7-8).** Dengys ymchwil mai natur y gynulleidfa darged yw'r ffactor mwyaf un sy'n dylanwadu ar ddewisiadau iaith siaradwyr iaith leiafrifol ar draws y cyfryngau cymdeithasol. Felly, dylai ymdrechion i hyrwyddo defnydd o ieithoedd lleiafrifol ar y cyfryngau cymdeithasol ganolbwyntio ar greu manau neu sefyllfaoedd lle mae cyfran yr iaith leiafrifol o'r llais yn cael ei chynyddu.
- **Mudo, amlddiwyllianedd ac adfywio iaith (tt.8-11).** Mae ymdrechion i adfywio iaith bellach yn digwydd o fewn cyd-destunau mwyfwy amlieithog ac aml-ethnig, yn hytrach nag o fewn y cyd-destun mwy cyfarwydd o ddwyieithrwydd mwyafrifol-lleiafrifol. O ganlyniad, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r graddau y mae polisïau a strategaethau sy'n ceisio integreiddio mewn fudwyr yn cyd-redeg â rhai sy'n hyrwyddo adfywio iaith. Yn ogystal, dylai ymdrechion i hyrwyddo caffael ieithoedd lleiafrifol ystyried y cwestiynau pedagogaid sy'n codi wrth gyflwyno'r iaith darged i 'siaradwyr newydd' sydd â chefnidiroedd ieithyddol amrywiol iawn.
- **Agweddau ar adfywio iaith leiafrifol (tt.11-13).** Mae tuedd tuag at 'broffesiynoli' wedi dod yn nodwedd mwyfwy amlwg o ymdrechion adfywio iaith dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gwerth i duedd o'r fath, ond gall hefyd arwain at densynnau. Yn ogystal, mae sicrhau cyfranogiad cyhoeddus eang mewn ymdrechion adfywio iaith yn parhau i fod yn hanfodol. Er hynny, mae'r gostyngiad cyffredinol a welwyd mewn sawl lleoliad mewn lefelau o ymwneud dinesig a gwytnwch cyfalaf cymdeithasol yn golygu y bydd parhau i warantu cyfranogiad eang yn debygol o fod yn her.
- **Materion methodolegol (tt.13).** Dylai ymchwil sy'n ceisio asesu hyfywedd iaith fod yn seiliedig ar gyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol. Hefyd, o gofio bod arferion cymdeithasol mwyfwy mudol a rhwydweithiol yn dod i'r amlwg, gallai defnyddio dulliau ethnograffig helpu i ddatgelu'r ffactorau sydd bellach yn dylanwadu ar arferion iaith pobl o ddydd i ddydd. Er hynny, dylai gwaith o'r fath gael ei gyfuno ag ymchwil fwy hydredol sy'n ystyried dylanwad posibl rhai adegau neu benderfynu allweddol sy'n codi mewn bywyd, a all fod yn arwyddocaol o safbwynt ieithyddol.



## Adfywio iaith, mudoledd a thrawsnewid cymunedol

### 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r papur hwn yn adrodd ar y trafodaethau a gafwyd fel rhan o'r **gweithdy Adfywio cyntaf a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth rhwng 22 a 23 Mai 2017**. Mae Adfywio yn rhwydwaith ymchwil amlddisgyblaethol a ariennir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (DU), a'i nod yw ymchwilio i oblygiadau rhai o'r newidiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol mawr a welir ledled cymdeithasau gorllewinol heddiw i'n dealltwriaeth o sut y dylai ymdrechion i adfywio iaith gael eu dylunio a'u rhoi ar waith. Mae'n dwyn ynghyd grŵp rhyngwladol o ymchwilwyr academiaidd, sy'n cwmpasu'r celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, yn ogystal â nifer o ymarferwyr blaenllaw ym maes polisi iaith. Caiff y rhwydwaith ei arwain gan Dr Huw Lewis (Prifysgol Aberystwyth), yr Athro Wilson McLeod (Prifysgol Caeredin) a Dr Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth).
- 1.2. Enw'r gweithdy cyntaf oedd '**Adfywio iaith, mudoledd a thrawsnewid cymunedol**', a'i nod oedd rhoi'r cyfle i feddwl yn feirniadol am newidiadau diweddar i syniadau ynglyn â chymuned a'u goblygiadau i'n dealltwriaeth o sut i adfywio iaith. Ar y diwrnod cyntaf, cafodd y cyfranogwyr eu hannog i ystyried goblygiadau'r symud tuag at fywydau mwyfwy mudol sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol ehangach, goblygiadau'r gostyngiad mewn cyfalaf cymdeithasol anffurfiol mewn sawl lleoliad, goblygiadau'r chwyldro mewn technoleg gyfathrebu a dyfodiad yr hyn a ddisgrifir fel 'y gymdeithas rwydwaith'. Rhoddodd yr ail ddiwrnod fwy o bwyslais ar fudo cyfoes, gyda'r cyfranogwyr yn canolbwyntio ar enghreifftiau o fudo rhyngwladol a domestig. Mae copi o raglen y gweithdy wedi'i atodi ar ddiwedd y papur hwn.
- 1.3. Mae'r papur yn crynhoi prif elfennau'r drafodaeth a gafwyd yn ystod y gweithdy, gan gyfeirio at gynnwys yr 16 o gyflwyniadau a draddodwyd dros y ddau ddiwrnod, a hefyd y cwestiynau a'r sylwadau a gododd yn ystod y cyfnodau trafod dilynol. Mae rhagor o ddeunyddiau sy'n rhoi blas o'r materion a drafodwyd yn ystod y gweithdy, gan gynnwys fideos byr lle mae'r cyfranwyr yn trafod eu cyflwyniadau, ar gael ar wefan y prosiect: <https://revitalise.aber.ac.uk>
- 1.4. Trefnwyd y papur hwn ar sail thematig, ac mae'n tynnu sylw at gyfres o themâu allweddol sy'n codi wrth edrych yn ôl dros drafodaethau'r gweithdy. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn canolbwyntio ar syniadau a dadleuon sy'n berthnasol i'r themâu canlynol:
  - Dealltwriaethau tiriogaethol a rhwydweithiol o gymuned a gofod
  - Defnydd o iaith a rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein
  - Mudo, amlddiwylliannedd ac adfywio iaith
  - Agweddau ar adfywio iaith leiafrifol
  - Materion methodolegol



## 2. Dealltwriaethau tiriogaethol a rhwydweithiol o gymuned a gofod

- 2.1. Yn ystod ei gyflwyniad, dadleuodd yr Athro Rhys Jones fod y llenyddiaeth academaidd a pholisi sy'n canolbwyntio ar hyfywedd cymunedau iaith lleiafrifol wedi cael ei dylanwadu gan ddychymyg daearyddol, tiriogaethol ei natur. Mae hyn yn arwain at bwyslais ar ddynodi rhanbarthau tiriogaethol lle mae iaith benodol yn meddu ar safle demograffig cryf (neu ddominyddol hyd yn oed), ac ar fonitro hyfywedd yr iaith o fewn cymunedau unigol yn y rhanbarthau hyn. Cyfeiriodd Jones at Gymru fel achos lle mae dychymyg daearyddol o'r fath wedi gwreiddio'n arbennig o ddwfn, fel y dangosir gan bwyslais y mudiad iaith, ac yn fwy diweddar, Llywodraeth Cymru, ar yr angen i ddiogelu'r iaith Gymraeg yn yr ardaloedd lle y caiff ei siarad gan ganranau uwch o'r bobloaeth ('Y Fro Gymraeg') a hefyd i ddiogelu cymunedau penodol o fewn yr ardal hon.
- 2.2. Cydnabu Jones na ellir diystyru'n llwyr y mewnwediadau a gynigir gan ddulliau tiriogaethol o drafod a dehongli hyfywedd iaith. Ar yr un pryd, awgrymodd y gallai rhoi gormod o bwyslais ar ffactorau tiriogaethol olygu nad ydym yn ystyried beth yw arwyddocâd newidiadau diweddar mewn patrymau o ymwneud cymdeithasol i arferion ieithyddol pobl. Ar y sail hon, galwodd am drafodaeth fwy soffistigedig lle y caiff naratifau tiriogaethol traddodiadol eu hystyried ochr yn ochr â dealltwriaethau mwy rhwydweithiol o ofod a chymdeithas. Byddai dull o'r fath yn golygu bod rhaid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i ffactorau megis y canlynol:
- Nid yw pobl yn byw, yn gweithio ac yn cymdeithasu mewn un man neu gymuned.
  - Nid yw manau na chymunedau yn unffurf, yn ffiniedig nac yn gaeëdig.
  - Mae pob man yn unigryw ar sail ei gysylltiadau â manau eraill yn y byd.
  - Gellir deall pob man fel nod a man cyfarfod o fewn rhwydweithiau amrywiol.
- 2.3. Drwy ganolbwyntio ar enghreifftiau o wahanol rannau o Sir Gaerfyrddin yng ngorllewin Cymru, ceisiodd Jones ddangos sut mae mwy o fudoled personol a chymudo wedi arwain at ymestyn ein harferion cymdeithasol dydd i ddydd ar draws ardaloedd ehangach. Mae hyn yn effeithio ar oedolion a phlant fel ei gilydd, ac yn effeithio ar arferion megis mynychu'r ysgol, cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ac arferion siopa. Yn eu tro, mae gan dueddiadau o'r fath oblygiadau i sut a ble mae pobl yn defnyddio iaith. Nid yw hyn wedi arwain at sefyllfa lle gall nodweddion demo-ieithyddol cymunedau tiriogaethol penodol gael eu diystyru wrth drafod defnydd o iaith. Fodd bynnag, erbyn heddiw, gellir hefyd magu dealltwriaeth soffistigedig o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y defnydd o iaith trwy ganolbwyntio ar siaradwyr yr iaith eu hunain a dadansoddi'r rhwydweithiau a'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt o ddydd i ddydd. Gall astudio nodweddion ieithyddol rhwydweithiau o'r fath fod yn dasg heriol, ond gall arwain at fewnwediadau gwerthfawr a newydd ar sut i ymyrryd er mwyn hyrwyddo mwy o ddefnydd o iaith.
- 2.4. Fel rhan o'i gyflwyniad, tynnodd Jones sylw at ddwy enghraifft o Gymru y gallai ymchwilyr ac ymarferwyr sy'n ymwneud ag adfywio iaith eu hystyried er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn y gall dehongliad fwy rhwydweithiol o gymdeithas a gofod ei olygu'n ymarferol. Yn gyntaf, cyfeiriodd at Gynllun Gofodol Cymru (Llywodraeth Cymru,



2008). Er nad yw'r ddogfen hon yn ymwneud ag iaith yn benodol, awgrymodd Jones fod y ffordd y mae'n nodi chwe rhanbarth gwahanol heb ddiffinio ffiniau pendant iddynt ('rhanbarthau niwlog'), ac felly'n adlewyrchu'r cysylltiadau gwahanol sy'n rhan o weithgareddau dydd i ddydd, yn arbennig o berthnasol wrth ddylunio ymyriadau sy'n ceisio dylanwadu ar arferion defnydd iaith. Yn ail, tynnodd sylw at y pecyn cynllunio iaith micro Gweithredu'n Lleol (Llywodraeth Cymru, 2012), sy'n hyrwyddo'r cysyniad o gymdogaeth yn lle'r syniad mwy statig o gymuned. O fewn Gweithredu'n Lleol, caiff y gymdogaeth ei chyflwyno fel rhwydwaith o gysylltiadau sy'n dilyn ffactorau megis daearyddiaeth leol, patrymau teithio, patrymau gwaith a hamdden a hanes economaidd lleol. Yna, caiff cynllunwyr iaith lleol eu hannog i ddechongli defnydd iaith fel ffenomen sy'n adlewyrchu tueddiadau o'r fath, ac felly i ddylunio ymyriadau yng ngoleuni hyn.

- 2.5. Cododd themâu tiriogaeth a daearyddiaeth hefyd yn ystod cyflwyniad Meirion Davies ar waith y Mentrau Iaith yng Nghymru a chyflwyniad Calum Iain MacLeod ar waith *Comunn na Gàidhlig* yn yr Alban. Eglurodd Davies fod Menter Iaith Conwy, sef y sefydliad y mae'n ei arwain yng ngogledd-orllewin Cymru, yn wynebu demograffeg amrywiol sy'n cynnwys ardaloedd gwledig, mewndirol prin eu poblogaeth lle mae nifer fawr o bobl yn siarad Cymraeg (>70%) ac ardaloedd arfordirol, mwy poblog lle mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn llawer is (<5% mewn rhai achosion). O ystyried y cyd-destun hwn, mae gweithgareddau'r Fenter wedi tueddu i wahaniaethu rhwng y ddwy fath o ardal, ac yn aml, mae gwahanol fathau o ymyriadau wedi bod yn angenrheidiol yn y ddwy ardal (e.e. gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar drosglwyddiad iaith yn yr ardaloedd arfordirol a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar greu cyfleoedd cyflogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardaloedd mewndirol).
- 2.6. Hefyd, eglurodd Davies y bydd angen i Fenter Iaith fel ei fenter ef weithredu'n wahanol i Fentrau mewn ardaloedd mwy dinesig, megis Caerdydd. Mae'n rhaid i Fenter Iaith Caerdydd ymateb i gyd-destun demograffig gwahanol, un a nodweddir gan gynnydd nodedig yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn sgil y twf a fu mewn addysg cyfrwng Cymraeg ledled de Cymru a hefyd y ffaith bod siaradwyr Cymraeg ifanc yn symud i'r brifddinas er mwyn gweithio mewn sectorau megis y cyfryngau, addysg a llywodraeth. Felly, prif flaenoriaeth Menter Iaith Caerdydd yw datblygu rhwydwaith sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith, e.e. cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.7. Roedd gwahaniaethau rhwng cyd-destunau gwledig a dinesig a rhwng ardaloedd dwysedd uchel a dwysedd isel hefyd yn nodweddiadol yng nghyflwyniad Calum Iain MacLeod o *Comunn na Gàidhlig*. Eglurodd MacLeod fod y canghennau hynny o'r sefydliad sydd wedi'u lleoli ar ynysoedd gorllewinol yr Alban yn tueddu i weithio ar wahân i'r rhai mewn ardaloedd dinesig mwy poblog, oherwydd y cyd-destunau demograffig gwahanol. Yn ogystal, er bod *Comunn na Gàidhlig* wedi gwneud ymdrech i efelychu rhai o arferion a chynlluniau'r Mentrau Iaith yng Nghymru, eglurodd fod prinder siaradwyr Gaeleg wedi golygu bod hyn yn aml yn anodd, yn enwedig wrth weithredu y tu hwnt i'r ynysoedd. Amlygodd y pwynt hwn y ffaith bod galw am ddwysedd penodol o siaradwyr hyd yn oed wrth geisio datblygu rhwydwaith iaith leiafrifol (e.e. gweithgareddau cymdeithasol i blant er mwyn annog mwy o ddefnydd iaith yng Nghaeredin).



- 2.8. I grynhoi, bu i nifer o drafodaethau yn ystod y gweithdy gyffwrdd ar yr angen i roi mwy o ystyriaeth i ddealltwriaethau rhwydweithiol o gymuned a gofod fel rhan o drafodaethau sy'n canolbwyntio ar hyfywedd cymunedau iaith lleiafrifol. Ar yr un pryd, cytunwyd yn gyffredinol na ellir chwaith diystyru mewnwelediadau sy'n deillio o ddulliau mwy traddodiadol, tiriogaethol eu natur. Yn wir, fel y nodwyd yn ystod un o'r trafodaethau, mewn rhai achosion gall realiti daeryddol syml gyfyngu ar y mudoledd a'r rhwydweithio sy'n rhan o fywyd bob dydd pobl (e.e. y ffaith bod yr ardaloedd dwysedd uwch sy'n siarad Gaeleg wedi'u lleoli ar yr ynysoedd). Ar y sail hon, her allweddol dros y blynyddoedd nesaf i ymchwilyr ac ymarferwyr yw sut i ddatblygu trafodaeth ynghylch y ffactorau sy'n dylanwadu ar hyfywedd iaith sy'n cyfuno ystyriaeth o ddealltwriaethau tiriogaethol a rhwydweithiol o ofod a chymdeithas.

### 3. Defnydd iaith a rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein

- 3.1. Un maes cymdeithasol sydd wedi dod yn fwyfwy pwysig dros y blynyddoedd diwethaf, ac sy'n pwysleisio'r symud i ffwrdd o batrymau rhwydweithio tiriogaethol eu natur yw rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein. Yn ystod ei gyflwyniad, trafododd Dr Daniel Cunliffe natur arferion iaith pobl mewn perthynas â rhwydweithiau cymdeithasol, ac awgrymodd ddulliau posibl o ddylanwadu ar yr arferion hynny er mwyn cynyddu'r defnydd o ieithoedd lleiafrifol. Cysyniad allweddol a gafodd ei drafod a'i ddefnyddio gan Cunliffe yn ystod y cyflwyniad oedd 'cyfran o'r llais' (share of voice), cysyniad sy'n cynrychioli presenoldeb neu bwysigrwydd iaith benodol o fewn cyd-destunau gwahanol – h.y. po fwyaf yw cyfran iaith X o'r llais (neu'r sgwrs) mewn cyd-destun penodol, po fwyaf yw ei phresenoldeb neu ei phwysigrwydd o fewn y cyd-destun hwnnw.
- 3.2. Mae'r cysyniad hwn wedi dylanwadu ar y ffordd y mae eraill wedi dehongli goblygiadau cyfryngau newydd, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, i ragolygon ieithoedd lleiafrifol. Er enghraifft, yn ei adroddiad yn 2003, *Language Vitality and Endangerment*, rhybuddiodd Grŵp Arbenigol Ad Hoc UNESCO ar Hyfywedd Ieithyddol fod twf cyfryngau newydd o bosibl yn bygwth ieithoedd lleiafrifol, oherwydd gallai datblygiadau o'r fath gynyddu ymhellach ar y 'cyfran o'r llais' a hawlir gan ieithoedd mwy.
- 3.3. Yn ôl Cunliffe, dengys ymchwil (e.e. Jongbloed-Faber, 2015) mai natur y gynulleidfa darged yw'r ffactor mwyaf un sy'n dylanwadu ar ddewisiadau iaith pobl ar draws y cyfryngau cymdeithasol. Wrth sgwrsio â chynulleidfaoedd bach penodol, lle mae gallu ieithyddol y cyd-sgwrsywyr yn hysbys, mae defnydd o'r iaith leiafrifol yn dueddol o fod yn fwy tebygol. Fodd bynnag, fel sy'n digwydd yn aml wrth ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol, gall y gynulleidfa darged fod yn eang a phenagored dros ben, ac mewn sefyllfa o'r fath, mae'n fwy tebygol y bydd iaith fwyafrifol yn cael ei defnyddio. Yn wir, y mwyaf penagored yw'r gynulleidfa darged, y mwyaf yw'r tebygolrwydd y bydd iaith fwyafrifol yn cael ei defnyddio. Mae hyn yn tynnu sylw at berthnasedd y cysyniad 'cyfran o'r llais' wrth drafod arferion iaith pobl ar y cyfryngau cymdeithasol – y mwyaf penagored yw'r gynulleidfa, y lleiaf yw'r gyfran debygol o unigolion sy'n siarad yr iaith leiafrifol (h.y. cyfran yr iaith o'r llais), sy'n arwain at lai o barodrwydd i ddefnyddio'r iaith leiafrifol.
- 3.4. Pwynt pellach a bwysleisiwyd gan Cunliffe yw y gall arferion iaith pobl amrywio o un cyfrwng cymdeithasol i'r llall, ac y gellir esbonio hyn yn ôl y math penodol o rwydwaith y mae pobl yn ei ddefnyddio. Er enghraifft, ar lwyfannau megis Facebook, mae mwy o



duedd i ddyblygu cysylltiadau byd cymdeithasol, ac yn sgil hynny, i feddu ar fwy o reolaeth dros y gyfran o'r llais. Gall hyn effeithio ar y defnydd o iaith ar y platfformau hyn. Mae dadansoddiad o grwpiau Facebook lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n sylweddol yn dangos cysylltiad ag ardaloedd daearyddol lle ceir cyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg, ac yn awgrymu cysylltiad rhwng defnydd o iaith yn y cyfryngau cymdeithasol a lleoliad.

3.5. Ar sail yr arsylwadau hyn, tynnodd Cunliffe sylw at honiad allweddol y dylai'r sawl sy'n hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol ei ystyried er mwyn hwyluso mwy o ddefnydd o ieithoedd o'r fath ar y cyfryngau cymdeithasol:

- Os gallwn ddylanwadu ar y rhwydwaith, gallwn ddylanwadu ar y gyfran o'r llais.
- Os gallwn ddylanwadu ar y gyfran o'r llais, gallwn ddylanwadu ar y defnydd o'r iaith leiafrifol.

3.6. Nododd Cunliffe hefyd ffyrdd posibl o ddylanwadu ar y mathau o rwydweithiau y mae pobl yn eu defnyddio er mwyn ychwanegu at gyfran ieithoedd lleiafrifol o'r llais. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Defnyddio algorithmau argymelledig er mwyn annog Twitter i argymhell cynnwys a ffefrir mewn iaith leiafrifol i'w siaradwyr.
- Defnyddio dylanwad cymdeithasol: e.e. annog pobl enwog i drydar mewn iaith leiafrifol (ceir tystiolaeth fod hyn wedi gweithio yn achos y Ffriseg).
- Ymyriadau i greu rhwydweithiau penodol.
- Agregu cynnwys.
- Creu 'getoau' neu gilfachau penodol ar-lein ar gyfer ieithoedd lleiafrifol.

3.7. Enghreifftiau o fentrau sy'n adlewyrchu rhai o'r arferion hyn o ran yr iaith Gymraeg yw rhwydweithiau Twitter megis Yr Awr Gymraeg, Awr y Dysgwr a Bloedd y Bore. Er nad yw'n glir p'un a yw'r rhain yn ymdrechion ymwybodol bob tro, maent yn dangos pobl yn siarad Cymraeg ac yn cynnig profiad mwy dwys o'r Gymraeg. Enghreifftiau o agregwyr sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg yw'r Blogiadur a Ffrwti. O ran 'getoau' neu gilfachau, mae Lackaff a Moner (2016) yn tynnu sylw at fanteision creu rhwydweithiau cymdeithasol ar gyfer ieithoedd lleiafrifol yn unig. Er hynny, gan adleisio'r pwyntiau a wnaed gan Meirion Davies a Calum Iain MacLeod mewn cyd-destun gwahanol, nodwyd bod hyn yn gofyn am nifer ddigonol o siaradwyr, a hefyd siaradwyr sy'n gyfarwydd â defnyddio sawl cyfrwng cymdeithasol gwahanol. Enghreifftiau o hyn yn y Gymraeg yw Maes-e a Clecs.

3.8. Ar y cyfan, gall technoleg weithredu fel lluosydd ar gyfer cyfran iaith fwyafrifol o'r llais. Mae hyn yn bwysig, gan y gall y cyfran o'r llais ar rwydwaith cymdeithasol ddylanwadu nid yn unig ar dreuliant (yr hyn rydym yn ei ddarllen) ond hefyd ar gynhyrchiad (yr ieithoedd a ddefnyddir i ymgysylltu â phobl). Er hynny, mae tystiolaeth bresennol yn awgrymu y gall fod yn bosibl cynyddu'r defnydd o iaith leiafrifol drwy gynyddu'r cyfran o'r llais mewn manau penodol ar y cyfryngau cymdeithasol.





#### 4. Mudo, amlddiwylliannedd ac adfywio iaith

- 4.1. Rhoddodd nifer o gyflwyniadau ystyriaeth i oblygiadau tueddiadau mudo cyfoes i ymdrechion adfywio iaith. Fel y pwysleisiodd Dr Kathryn Jones yn ystod ei chyflwyniad hi, mae hyn yn allweddol gan bod nifer o ymdrechion adfywio iaith bellach yn digwydd o fewn cyd-destunau mwyfwy amlieithog ac aml-ethnig, yn hytrach nag o fewn y cyd-destun mwy cyfarwydd o ddwyieithrwydd mwyafrifol-lleiafrifol. Ymhellach, fel y nododd yr Athro Bernadette O'Rourke yn ystod ei chyflwyniad hi, cwestiwn allweddol sy'n rhaid i ladmeryddion adfywiad iaith ei ystyried, yn sgil y math hyn o amgylchiadau, yw sut gellir caniatau i hunaniaethau iethyddol lluosog gael eu cynnal, tra ar yr un pryd, sicrhau gofod digonol ar gyfer normaleiddio'r iaith leiafrifol?
- 4.2. Yn ystod ei chyflwyniad, trafododd Dr Catrin Wyn Edwards sut y mae llunwyr polisi iaith ac ymgyrchwyr cymdeithas sifil yng Nghatalonia wedi ymateb i heriau o'r fath wrth i'r ardal ddod yn gyrchfan nid yn unig i fudwyr o rannau eraill o Sbaen, ond hefyd i fudwyr o bedwar ban byd. Yn ystod y cyfnod hwn, bu ymdrechion i ddatblygu 'dull Catalanaidd o ymdrin â mewnfudo' sydd, ymhlith pethau eraill, yn ceisio annog mewnfudwyr i ddysgu Catalaneg. Felly, sefydlwyd cysylltiad uniongyrchol rhwng polisi adfywio iaith a pholisi mudo ac integreiddio yng Nghatalonia.
- 4.3. Fodd bynnag, yn ôl Edwards, nodwedd bwysig arall yw'r modd y mae rhannau o'r gymdeithas sifil yng Nghatalonia wedi ceisio atgyfnerthu ac adeiladu ar bolisiau swyddogol, naill ai drwy gynlluniau gwirfoddol sy'n cefnogi caffael iaith, megis *Voluntariat per la Llengua*, neu drwy ymgyrchoedd sy'n ceisio hyrwyddo'r neges bod iaith a diwylliant Catalonia yn agored i bawb. Tynnodd Edwards sylw at y cynllun *Voluntariat* fel enghraifft benodol o arfer da y gellid ei hefelychu mewn cyd-destunau eraill. Fel rhan o'r cynllun, mae siaradwyr Catalaneg rhugl yn gwirfoddoli i gael eu paru â dysgwyr Catalaneg ac yna'n cefnogi eu hymdrechion i ddysgu'r iaith drwy gyfarfodydd anffurfiol bob wythnos (e.e. dros baned). Yn ôl Edwards, mae amrywiol fanteision i'r cynllun: mae'n gynllun cymharol rhad i'w roi ar waith a'i gynnal yn sgil ei natur wirfoddol; mae'n annog siaradwyr rhugl i gymryd rhan yn y broses o greu siaradwyr newydd; mae hefyd yn gynllun hyblyg a gellir ei addasu'n hawdd i gyd-destunau gwahanol, er enghraifft o fewn gweithleoedd dynodedig.
- 4.4. Achos arall a drafodwyd mewn perthynas â themâu mudo rhyngwladol ac amlddiwylliannedd oedd Cymru. Fodd bynnag, yma, roedd y cysylltiad rhwng mesurau a ddyluniwyd i ymateb i fewnfudo ac ymdrechion i hyrwyddo rhagolygon yr iaith Gymraeg yn llawer mwy amwys. Yn ystod ei chyflwyniad dangosodd Dr Gwennan Higham sut mae strategaethau a dogfennau polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â mewnfudo yn osgoi diffinio statws neu rôl yr iaith Gymraeg yn y broses integreiddio. Yn wahanol i Gatalonia, mae dogfennau o'r fath yn tueddu i ddilyn polisïau gwladol y DU yn agos iawn, gan drin integreiddio fel proses i'w chynnal trwy gyfrwng y Saesneg yn unig ac yn ystyried unrhyw sôn am yr iaith Gymraeg fel rhywbeth a fyddai'n wrthgynhyrchiol. Cyfeiriodd Higham hefyd at ddata o gyfweiliadau ymchwil er mwyn dangos bod llawer o diwtoriaid iaith ESOL sy'n gweithio yng Nghymru yn tueddu i fod o'r un farn. Er hynny, eglurodd bod nifer o'r mewnfudwyr sy'n mynychu cyrsiau iaith ESOL a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r ymchwil yn arddel barn wahanol. Ymhlith y grŵp hwn, mae amlieithrwydd yn tueddu i gael ei ystyried yn fwy cadarnhaol, a'r iaith Gymraeg yn tueddu i gael ei hystyried yn adnodd cyfathrebu ychwanegol a allai helpu gyda'r broses o sefydlu cysylltiadau â chymuned newydd. I



grynhai, pwysleisiodd Higham na fu yng Nghymru unrhyw ymgais i gysylltu strategaethau llywodraethol sy'n ymwneud â mewnfudo ac integreiddio â'r rhai sy'n ceisio hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Ar sail ei gwaith ymchwil, ymddengys fod hyn yn adlewyrchu cyfle a gollwyd gan fod mewnfudwyr rhyngwladol yn ymddangos yn barod i herio'r dehongliad uniaith traddodiadol o integreiddio yn y DU.

- 4.5. Ar y llaw arall, roedd cyflwyniad Carys Lake a oedd yn canolbwyntio ar waith canolfannau trochi iaith Cyngor Sir Gwynedd yn tynnu sylw at enghraifft lle mae gan yr iaith Gymraeg rôl fwy canolog yn y broses o ymateb i fewnfudo. Mae Gwynedd, yng ngogledd-orllewin Cymru, yn un o'r siroedd sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Ers sawl degawd bellach, mae awdurdod lleol yr ardal wedi arddel polisi hyrwyddo iaith rhagweithiol sydd yn aml yn mynd y tu hwnt i'r gofynion a nodir mewn strategaethau iaith cenedlaethol. O ystyried polisi Gwynedd o geisio sicrhau mai Cymraeg yw prif iaith holl ysgolion y sir, ac mewn ymateb i'r nifer gynyddol o bobl ddi-Gymraeg sy'n mudo i'r sir, sefydlwyd pum canolfan trochi Cymraeg ers canol y 1980au. Mae pedair o'r canolfannau hyn ar gyfer plant rhwng 6 ac 11 oed, ac mae un ohonynt ar gyfer plant rhwng 11 a 14 oed. Yn wreiddiol, agorwyd y canolfannau am fod mwy a mwy o fudo i Wynedd o wahanol rannau o'r DU, ond yn fwy diweddar mae'r canolfannau hefyd wedi ymateb i achosion o fudo rhyngwladol (e.e. mudo o rannau o ddwyrain Ewrop i orllewin Cymru ers tua 2004). Yng ngoleuni rhai o'r agweddau y daeth Higham ar eu traws yn ystod ei hymchwil, roedd yn ddadlennol clywed Lake yn nodi bod gwerthusiadau yn dangos bod y canolfannau trochi wedi bod yr un mor llwyddiannus wrth helpu plant o'r naill gefndir neu'r llall i ddysgu Cymraeg, ac nad oes arwydd bod dod o gartref di-Saesneg yn creu her gormodol. Nodwyd hefyd fod y gwerthusiadau yn dangos nad yw mynychu canolfannau trochi wedi peri anawsterau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- 4.6. Cyfeiriodd sawl un o'r cyflwyniadau yn ystod y gweithdy at y ffordd y mae mewnfudwyr eu hunain yn gweld ymdrechion i hyrwyddo'r iaith leiafrifol. Fel y nodwyd uchod, awgrymodd gwaith ymchwil Higham fod tuedd ymhlith mewnfudwyr rhyngwladol i ddehongli amlieithrwydd mewn termau mwy cadarnhaol ac i ystyried yr iaith Gymraeg yn adnodd cyfathrebu ychwanegol a allai hwyluso'r broses integreiddio. Yn ôl Dr Huw Williams, roedd rhain yn safbwyntiau yr oedd ef hefyd wedi dod ar eu traws ymhlith sawl cymuned o fewnfudwyr drwy ei ymwneud ag ymdrechion i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn ardaloedd Grangetown a Butetown yng Nghaerdydd, sef yr ardaloedd mwyaf aml-ethnig yng Nghymru.
- 4.7. Ar yr un pryd, tynnodd rhai cyflwyniadau sylw at farn fwy amheugar ymhlith mewnfudwyr rhyngwladol. Er enghraifft, eglurodd Dr Nicola Bermingham fod ei hastudiaeth ethnograffig o ymdrechion i addysgu Galiseg a Sbaeneg i fewnfudwyr ifanc o Cape Verde yn tynnu sylw at duedd glir i werthuso pob iaith yn ôl ei gwerth canfyddedig, a bod Sbaeneg fel arfer yn cael ei chysylltu â syniadau o fawredd, mudoedd a chyfleoedd cymdeithasol. Dadleuwyd bod hyn yn pwysleisio'r angen i'r sawl sy'n ymwneud ag adfywio iaith i ddatblygu canfyddiad ymhlith mewnfudwyr bod yr iaith leiafrifol hefyd yn agor y drws i gyfleoedd cymdeithasol gwerth chweil.
- 4.8. Ar y pwynt olaf hwn, roedd yn bwysig bod yr Athro Bernadette O'Rourke, yn ei chyflwyniad, wedi egluro bod ymchwil ddiweddar i rôl 'siaradwyr newydd' fel rhan o ymdrechion i adfywio iaith wedi pwysleisio y gall ymdeimlad o ddyhead ac awydd i ddod



ymlaen yn gymdeithasol fod yn ffactorau pwysig sy'n hwyluso'r broses o ddysgu iaith. Pwysleisiodd O'Rourke hefyd bwysigrwydd dosbarth mewn perthynas â siaradwyr newydd o ieithoedd lleiafrifol. Er enghraifft, aelodau o'r dosbarth canol, addysgedig sydd yn aml yn ei chael hi'n haws dod o hyd i gyfleoedd i ddysgu ac ymarfer yr iaith newydd.

- 4.9. Y tu hwnt i'r arsylwadau a drafodwyd uchod, cyfeiriodd rhai cyflwyniadau at bwyntiau ymarferol o ran sut i hyrwyddo dysgu iaith leiafrifol ymhlith cymunedau o fewnfudwyr. Dadleuodd Carys Lake fod profiad canolfannau trochi Gwynedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod yr iaith darged yn cael ei chyflwyno fel cyfrwng yn hytrach na phwnc penodol ac, wrth weithio gyda phlant neu oedolion ifanc y dylid rhoi pwyslais ar ddysgu gweithredol lle bo gweithgareddau a gemau cerddorol yn chwarae rôl bwysig. Pwysleisiodd Lake hefyd ei bod yn hanfodol bod gan ysgolion systemau mentora priodol mewn lle, er mwyn sicrhau y caiff y sgiliau iaith a gyflwynir yn ystod y cyrsiau dwys y canolfannau trochi eu datblygu ymhellach pan fydd y plant yn symud ymlaen i system addysg cyfrwng Cymraeg Gwynedd. Mae sefydlu systemau o'r fath yn dibynnu ar allu staff y canolfannau trochi ac athrawon ysgolion i gydweithredu'n agos.
- 4.10. Yn ystod ei chyflwyniad, nododd Dr Kathryn Jones ei bod yn bwysig rhoi ystyriaeth ofalus i gefndir ieithyddol amrywiol plant - ac yn sgil hynny eu hanghenion cymorth penodol - wrth gyflwyno iaith leiafrifol i siaradwyr newydd mewn ysgolion lle mae siaradwyr iaith gyntaf yn mynychu hefyd. Pwysleisiodd Jones hefyd bod angen sicrhau bod athrawon yn derbyn hyfforddiant ieithyddol priodol a chymorth ymarferol digonol er mwyn medru ymateb yn effeithiol mewn sefyllfaoedd o'r fath.

## 5. Agweddau ar adfywio iaith leiafrifol

- 5.1. Yn ystod y gweithdy, rhoddodd nifer o'r cyflwyniadau sylw i dueddiadau cyfoes yn yr *arfer* o adfywio iaith leiafrifol. Roedd hyn yn nodwedd arbennig o'r cyflwyniad a draddodwyd gan yr Athro Jacqueline Urla. Dechreuodd drwy ddadlau bod amgylchiadau gwleidyddol ac economaidd newydd wedi arwain at newidiadau yn y modd y mae pobl yn dewis lladmeru ar ran ieithoedd lleiafrifol. Enghraifft drawiadol o hyn yw'r ymdrech gynyddol i fframio ieithoedd lleiafrifol fel asedau economaidd y gellir eu defnyddio i hyrwyddo twf a chyflogaeth, er enghraifft mewn sectorau megis marchnata a thwristiaeth. Dadleuodd Urla fod y duedd hon yn arbennig o amlwg yng Ngwlad y Basg, lle mae'r Fasgeg wedi dechrau cael ei hystyried fel sector o'r economi yn ei rhinwedd ei hun. Roedd yn arwyddocaol bod pwyslais tebyg ar yr angen i ystyried gwerth economaidd iaith hefyd yn nodwedd amlwg o gyflwyniad Meirion Davies ar waith Menter Iaith Conwy. Trafododd brosiectau sydd wedi defnyddio cyllid gan Raglen Datblygu Gwledig yr UE i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth i siaradwyr Cymraeg mewn sectorau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, megis gweithgareddau awyr agored. Yn fwy diweddar, mae'r mathau hyn o brosiectau wedi arwain at drafodaeth ehangach ymhlith sawl Menter Iaith ledled Cymru ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu marchnad lafur cyfrwng Cymraeg.
- 5.2. Ail duedd a nodwyd yn ystod cyflwyniad Urla oedd y 'proffesiynoli' a fu ar y broses o hyrwyddo iaith leiafrifol. Dadleuoedd bod hyn wedi arwain at lai o bwyslais yn cael ei roi ar gysyniadau megis cenedlaetholdeb ac adeiladu cenedl a mwy o bwyslais ar gysyniadau 'technegol' megis ansawdd, rheoli, hyfforddiant ac archwilio rhaglenni. Cafodd y broses hon ei labelu fel 'datblygiad llywodraethiaeth ieithyddol' lle mae iaith yn dod yn wrthrych



y gellir ei lywodraethu, ei fesur a'i reoli. Unwaith eto, seiliodd Urla ei myfyrdodau ar enghreifftiau o Wlad y Basg yn bennaf. Fodd bynnag, roedd yn drawiadol bod arwyddion o'r 'proffesiynoli' hyn hefyd i'w weld ymhlyg yn y cyflwyniadau a oedd yn trafod gwaith y Mentrau Iaith a *Comunn na Gàidhlig*. Yn y ddau achos, eglurwyd y caiff cyllid craidd ei ddarparu gan gorff cynllunio iaith cenedlaethol (Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru yn achos y cyntaf a *Bòrd na Gàidhlig* yn achos yr ail), ac mae angen cytuno ar set o dargedau cyffredinol cyn derbyn y cyllid hwn. Cyfeiriodd y ddau gyflwyniad hefyd at drefniadau i ddarparu hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus i swyddogion datblygu sy'n gyfrifol am weithredu prosiectau ar lawr gwlad. Ar yr un pryd, roedd arwyddion o'r tensiwn sy'n medru codi wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli a monitro canolog a gweithredu ar lawr gwlad. Yn achos y Mentrau Iaith a *Comunn na Gàidhlig*, dadleuwyd bod angen cynnal lefel digonol o ymreolaeth er mwyn i flaenoriaethau gwario fedru cael eu pennu'n lleol ac er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd i fedru cyflwyno mentrau newydd yn gyflym ac yn hwylus.

- 5.3. Fel rhan o'r duedd o broffesiynoli, a'r duedd gysylltiedig o greu 'diwylliant archwilio', dadleuodd Urla fod achos Gwlad y Basg wedi gweld mwy a mwy o bwyslais ar yr angen i feintioli agweddau gwahanol ar yr ymdrech adfywio iaith. Mae hyn wedi golygu datblygu dangosyddion meintiol amrywiol sydd, ar y naill llaw, yn ceisio mesur hyfywedd y Fasgeg, ac ar y llaw arall, yn ceisio asesu sut y rhoddwyd ymyriadau iaith amrywiol ar waith, gan fesur eu llwyddiant. Pwysleisiodd Urla nad oes unrhyw beth o'i le o gwbl ar ddefnyddio dangosyddion meintiol – gallant helpu mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r graddau y mae iaith mewn perygl. Er hynny, mae'n bwysig cydnabod y gall dangosyddion meintiol hefyd olygu rhywfaint o symleiddio ac y gallant, felly, gyfyngu'n anfwriadol ar ein dealltwriaeth o sut mae pobl yn ymwneud ag iaith ac yn ei defnyddio. Er enghraifft, rhybuddiodd Urla y gallai categoreiddio mathau gwahanol o siaradwyr mewn termau meintiol yn unig arwain at duedd i osod siaradwyr 'go iawn' ar lefel uwch o fewn hierarchaeth a stigmatiddio dysgwyr.
- 5.4. Yn unol â'r pwyntiau uchod a godwyd gan Urla, cododd Dr Rhian Hodges a Dr Cynog Prys gwestiynau ynghylch defnydd Llywodraeth Cymru o ddangosyddion meintiol er mwyn mesur hyfywedd yr iaith Gymraeg yn lleol. Yma eto, dadleuwyd bod yr angen i feintioli yn arwain at ddangosydd sy'n golygu rhywfaint o orsymleiddio (e.e. ceisio mesur hyfywedd y Gymraeg yn lleol ar sail nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau cymdeithasol cyfrwng Gymraeg a ariennir gan y Llywodraeth).
- 5.5. Mater arall a gododd yn ystod amryw o gyflwyniadau oedd gwerth ceisio sicrhau cyfranogiad cyhoeddus eang mewn gwahanol fentrau adfywio iaith. Ni all llywodraethau eu hunain fod yn llwyr gyfrifol am ymdrechion adfywio iaith. Mae gan wahanol fathau o grwpiau lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r modd y mae pobl yn ymwneud ag iaith, a gall hyn fod yn ffynhonnell o greadigrwydd wrth ystyried sut y gellir hybu caffael a defnydd o'r iaith. Ar yr un pryd, nodwyd y gallai'r ffordd y mae newidiadau cymdeithasol, economaidd a thechnolegol amrywiol (e.e. dylanwad maestrefoli a chymudo ar batrymau gwaith ac arferion hamdden, neu ddylanwad technoleg ar batrymau hamdden) wedi arwain at ostyngiad mewn lefelau o gyfranogiad dinesig, ac yn sgil hynny, lleiahu gwytnwch cyfalaf cymdeithasol, gan olygu bod harneisio'r wybodaeth hon at ddibenion adfywio iaith yn dod yn fwyfwy heriol.



## Adfywio: Adroddiad Gweithdy 1

- 5.6. Grwp cymdeithasol a nodwyd yn ystod sawl un o gyflwyniadau'r gweithdy fel un arbennig o anodd i ymarferwyr adfywio iaith ei gyrraedd oedd plant hŷn yn eu harddegau. Cododd y mater hwn yn ystod cyflwyniad Calum Iain MacLeod ar waith *Comunn na Gàidhlig* yn yr Alban, a hefyd yn ystod cyflwyniad Dr Rhian Hodges a Dr Cynog Prys ar hyrwyddo iaith ar lefel gymunedol yng Nghymru. Roedd dylanwad technoleg ar batrymau hamdden pobl ifanc yn un agwedd ar fywyd cyfoes yr ystyriwyd ei bod yn bwysig yn y cyd-destun hwn.

## 6. Materion methodolegol

- 6.1. Yn ystod y gweithdy, tynnodd nifer o gyfranwyr sylw at faterion methodolegol pwysig y dylid eu hystyried pan fydd hyrwyddwyr adfywio iaith yn ceisio mesur hyfywedd cymuned iaith benodol. Cafodd un ei grybwyll uchod, sef gwerth cyfuno ymchwil meintiol ar raddfa fawr sy'n canolbwyntio ar fesur y niferoedd sy'n siarad iaith a'r defnydd ohoni, gydag astudiaethau ansoddol ar raddfa lai. Y ddadl oedd y gall cyfuniad o astudiaethau arwain at ddealltwriaeth fwy crwn o'r ffordd y mae pobl yn ymwneud ag ieithoedd ac yn eu defnyddio, gan ddarparu sail gryfach ar gyfer datblygu ymyriadau sy'n ceisio dylanwadu ar arferion o'r fath.
- 6.2. Roedd ystyriaeth fethodolegol bwysig arall a gynigiwyd gan yr Athro Rhys Jones yn ymateb i ddatblygiad arferion cymdeithasol mwyfwy mudol a rhwydweithiol. O ystyried y math hwn o newid ym mywydau dydd i ddydd pobl, gallai defnyddio dulliau ethnograffig helpu i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu patrymau defnydd iaith. Byddai ymchwil o'r fath yn golygu dilyn grwpiau o siaradwyr yn agos er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r mathau o weithgareddau cymdeithasol y maent yn cymryd rhan ynddynt yn rheolaidd, ac yn sgil hynny, caniatu i ymarferwyr adfywio iaith i nodi meysydd ymyrryd allweddol.
- 6.3. Er bod sawl cyfrannwr arall wedi cadarnhau gwerth posibl defnyddio dulliau ethnograffig sy'n canolbwyntio'n fanwl ar arferion iaith o dydd i ddydd, dadleuwyd hefyd y dylai gwaith o'r fath gael ei gyfuno ag ymchwil fwy hydredol. Wrth ddibynnu'n dibynnu'n llwyr ar fframwaith dydd i ddydd micro byddai peryg colli golwg ar ddylanwad posibl rhai adegau neu *mudes* allweddol sy'n codi yn ystod bywyd ac sy'n meddu ar arwyddocad ieithyddol – e.e. penderfyniadau ynghylch dechrau teulu, addysg gynradd ac uwchradd, penderfyniadau ynghylch ble i fynd i'r brifysgol, penderfyniadau ynghylch cyflogaeth ac ati. Fel y pwysleisiodd yr Athro Bernadette O'Rourke, gall y mathau hyn o adegau ieithyddol fod yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun siaradwyr newydd, gan y gall dysgu iaith newydd, yn enwedig iaith leiafrifol, olygu newid ffordd o fyw.

## 7. Trafodaeth i gloi: themâu ar gyfer gweithdy yn y dyfodol

- 7.1. Rhoddodd rhan o'r drafodaeth glo sylw pellach i'r cwestiynau a godwyd ynghylch y patrymau rhyngweithio cymdeithasol mwy mudol a rhwydweithiol sy'n dod i'r amlwg a sut mae hyn yn berthnasol i gynllunio iaith. Dadleuwyd bod gwerth posibl i amgyffred defnydd iaith yng nghyd-destun cymdogaethau sy'n cynnwys rhwydwaith o gysylltiadau, yn hytrach nag mewn perthynas â'r syniad mwy traddodiadol o gymunedau tiriogaethol statig. Dadleuwyd hefyd y byddai'n werthfawr gweld a yw'n bosibl defnyddio technegau daearyddol er mwyn mapio rhai o'n rhwydweithiau cymdeithasol, a thrwy hyn, ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae ein harferion iaith dydd i ddydd yn rhyngweithio â



dimensiynau eraill megis seilwaith cymdeithasol ac economaidd, rhwydweithiau trafnidiaeth neu ddaearyddiaeth leol.

- 7.2. Gan adeiladu ar y pwyntiau uchod, dadleuwyd hefyd y byddai'n werthfawr pe gallai'r ffocws ar faterion megis mudoledd a thiriogaeth gael eu cyfuno â mwy o ystyriaeth i ddimensiwn economaidd defnydd iaith. Gallai hyn gynnwys ymdrech i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ffactorau economaidd sy'n dylanwadu ar y dewisiadau iaith a wneir gan bobl mewn cyd-destunau gwahanol. Dylai hefyd gynnwys ymdrech i gysyniadoli dylanwad dosbarth ar arferion iaith pobl, ond hefyd yn nhermau ei ddylanwad ar bwy sy'n arwain a phwy sy'n ymwneud ag ymdrechion i adfywio iaith. Mae hon yn thema a fydd yn cael ei harchwilio ymhellach yn ystod trydydd gweithdy'r prosiect yn ystod Haf 2018.
- 7.3. Yn olaf, gan ailgodi'r drafodaeth ynghylch sut mae ymdrechion adfywio iaith wedi esblygu, codwyd pwyntiau ynghylch y gwahanol fathau o actorion sy'n ymwneud â'r gwaith, rôl arian cyhoeddus, y graddau y dylai ymyriadau gwahanol fod yn hunangynhaliol, a ph'un a oes mwy o bwyslais ar fodolau perchenogaeth gymdeithasol mewn rhai achosion o adfywio iaith. Er enghraifft, nodwyd yn achos Cymru bod y gwaith o hybu'r Gymraeg wedi'i arwain gan fudiadau llawr gwlad yn ystod y 1960au a'r 1970au, cyn dod yn gynyddol ddibynnol ar gyllid cyhoeddus yn ystod y degawdau canlynol. O ganlyniad, trafodaeth sy'n codi'n aml yw lefel y gefnogaeth ariannol y dylid ei estyn i'r Gymraeg gan y llywodraeth. Fodd bynnag, efallai y rhoddwyd llai o sylw i oblygiadau'r gefnogaeth honno a'r posibilrwydd bod sefydliadau wedi colli rhywfaint o'r ymreolaeth, radicaliaeth ac egni a nodweddi'r ymyriadau gwreiddiol. Y perygl yng nghyd-destun Cymru o leiaf yw gorddibynnu ar eraill i ariannu a dod o hyd i atebion. Ar y llaw arall, nodwyd bod lwerddon wedi esblygu o fod yn achos lle roedd y llywodraeth yn ymyrrwr cryf a symud tuag at fodol mwy laissez-faire. Er hynny, mae meysydd eraill polisi cyhoeddus yn fwyfwy ymyraethol, gyda dinasyddion yn cael eu hannog i ymddwyn mewn ffyrdd penodol, e.e. iechyd a'r amgylchedd. Y cwestiwn ehangach a godwyd, sy'n berthnasol i achosion eraill, yw sefyllfa sefydliadau sy'n ymwneud â pholisi iaith. I ba raddau y dylent ystyried bod yn fwy hunangynhaliol? Trafodaeth gyfochrog i'w chael yw un ar gydbwysedd priodol rôl llywodraeth. Mae'r rhain yn themâu a fydd yn cael sylw yn ystod pedwerydd gweithdy'r prosiect yn ystod Hydref 2018.



## **Gweithdy 1: Adfywio iaith, mudoledd a thrawsnewid cymunedol**

**Dyddiad:** 22-23 Mai 2017

**Lleoliad:** Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth

*Diwrnod 1: Adfywio iaith a thrawsnewid cymunedol*

9.30 – 9.45: **Sylwadau agoriadol: amcanion a chwestiynau allweddol**

Huw Lewis, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth

9.45 – 10.30: **Gosod y cyd-destun: Globaleiddio a thrawsnewid cymunedol**

Mike Woods, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth

10.30 – 11.30: **Polisi iaith mewn oes ôl-diriogaethol**

Rhys Jones, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth

11.30 – 11.45: Te/coffi

11.45 – 12.45: **Gweithredu ieithyddol ar lawr gwlad mewn cyfnod o drawsnewid cymdeithasol**

Jacqueline Urla, Adran Anthropoleg, Prifysgol Massachusetts Amherst

12.45 – 2.00: Cinio

2.00 – 2.45: **Trafodaeth banel – Hybu defnydd cymdeithasol o ieithoedd lleiafrifol: heriau cyfoes**

Meirion Davies – Menter Iaith Conwy

Siân Lewis – Menter Iaith Caerdydd

Calum Iain MacLeod – Comunn na Gàidhlig

2.45 – 3.45: **Trafodaeth banel: iaith, cymuned a chymdeithas sifil yng Nghymru heddiw**

Rhian Hodges a Cynog Prys, Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor

Robin Mann, Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor

3.45 – 4.00: Te/coffi

4.00 – 5.00: **Cymunedau iaith lleiafrifol, technoleg a rhwydweithiau cymdeithasol**

Daniel Cunliffe, Ysgol Cyfrifiadureg a Mathemateg, Prifysgol De Cymru

5.00 – 5.30: Myfyrdodau a thrafodaeth i gloi



**Adfywio: Adroddiad Gweithdy 1**

*Diwrnod 2: Adfywio iaith mewn oes o fudo*

**10.00 – 10.15: Sylwadau agoriadol: amcanion a chwestiynau allweddol**

Elin Royles, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth

**10.15 – 11.15: Mudo ac adfywio iaith**

Catrin Wyn Edwards, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth

**11.15 – 11.30: Te/coffi**

**11.30 – 12.30: Siaradwyr newydd yng nghyd-destun adfywio iaith**

Bernadette O'Rourke, Adran Ieithoedd ac Astudiaethau Rhyngddiwyllynnol, Prifysgol Herriot Watt

**12.30 – 1.30: Cinio**

**1.30 - 2.30: Trafodaeth banel: Mudo, addysg ac adfywio iaith mewn cyd-destunau gwledig a dinesig**

Carys Lake, Cyngor Sir Gwynedd

Dr Huw Williams, Prifysgol Caerdydd/Ymgyrch TAG

**2.30 – 3.30: Trafodaeth banel: Mewnfudwyr rhyngwladol fel 'siaradwyr newydd' ieithoedd lleiafrifol**

Kathryn Jones, IAITH

Gwennan Higham, Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe

Nicola Bermingham, Adran Ieithoedd ac Astudiaethau Rhyngddiwyllynnol, Prifysgol Herriot Watt

**3.30 – 4.00: Myfyrdodau a thrafodaeth i gloi**